Rydyn ni wedi cwblhau adolygiad mewnol o'n hadroddiadau ar ollyngiadau a defnydd fesul pen (h.y. faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan bob cwsmer) ac wedi dod i'r casgliad nad oedd elfen o'n cyfrifiadau ar gyfer y mesurau allweddol hyn ar gyfer blynyddoedd 2020-2022 yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

Mae rhagor o fanylion yma ond dyma ambell i Gwestiwn ac Ateb a fydd, gobeithio, yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

**Pam ydw i'n cael y taliad?**

Bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru – domestig a busnes – a oedd â chyfrif byw gyda Dŵr Cymru ar 31 Mawrth 2023 yn derbyn ad-daliad o £10 a gaiff ei gredydu i'w cyfrifon. Mae hyn yn dilyn adolygiad mewnol o adroddiadau'r cwmni ar ollyngiadau a defnydd fesul pen (h.y. faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio gan bob cwsmer) a ddangosodd nad oedd elfen o'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer y mesurau allweddol hyn ar gyfer blynyddoedd 2020-2022 yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

**A fydd unrhyw gwsmeriaid yn cael mwy na £10?**

Na fydd, bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru – domestig a busnes – yn cael £10.

**A gaf i herio'r penderfyniad a hawlio mwy na £10?**

Na chewch, bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru – domestig a busnes – yn cael £10.

**Sut caiff y taliad ei wneud?**

Caiff y taliad o £10 ei gredydu'n awtomatig i bob cyfrif domestig/busnes cofrestredig. Bydd Dŵr Cymru'n gwneud hyn yn awtomatig. Nid oes angen i gwsmeriaid wneud dim ac nid oes angen cysylltu â ni.

**A gaf i drefnu bod y £10 yn cael ei anfon ataf i?**

Na chewch, nid yw hynny'n bosibl. Caiff pob taliad ei gredydu'n awtomatig i'r cyfrif domestig/busnes cofrestredig.

**A oes angen i'r cwsmeriaid wneud rhywbeth?**

Nac oes. Caiff y taliad ei gredydu i'ch cyfrif os oedd gennych gyfrif cofrestredig gyda Dŵr Cymru ar 31 Mawrth 2023.

**Pryd byddaf i'n derbyn fy nhaliad?**

Mae trefnu taliad o'r fath ar gyfer pob aelwyd a busnes yn dipyn o her. Caiff y gwaith ei gyflawni gam wrth gam ac er na allwn gadarnhau pryd yn union y caiff pob cyfrif ei gredydu, ein bwriad yw sicrhau bod pob cyfrif yn cael ei gredydu cyn pen y chwe mis nesaf.

**Sut byddaf i'n gwybod eich bod chi wedi prosesu fy nhaliad?**

Fe welwch chi'r credyd o £10 ar y bil nesaf a gewch chi gennym. Os oes mesurydd dŵr gennych, fe welwch hyn o fewn y 6 mis nesaf. Os nad oes mesurydd dŵr gennych, bydd yn ymddangos ar y bil a gewch chi yn Chwefror / Mawrth 2024.

**A fydd y credyd yn ymddangos ar lein af Fy Nghyfrif ar ôl ei gredydu?**

Bydd, fe welwch chi'r credyd ar eich cyfrif ar lein ar ôl ei brosesu.

**Mae dyled ar fy nghyfrif, a gaf i'r taliad o £10 o hyd?**

Cewch. Bydd pob un o gwsmeriaid Dŵr Cymru – domestig a busnes – yn cael £10.

**Fe symudais i yn ystod y 12 mis diwethaf, oes angen i mi wneud rhywbeth?**

Nac oes. Caiff y taliad hwn ei gredydu'n awtomatig i'ch cyfrif cyfredol gyda Dŵr Cymru os ydych chi'n dal i fyw yn ardal weithredu Dŵr Cymru a bod cyfrif gennych o hyd.

**A fyddwch chi'n anfon llythyr i gadarnhau eich bod wedi credydu fy nghyfrif â £10?**

Na fyddwn. Ni fyddwn ni'n anfon llythyr, bydd y taliad hwn yn ymddangos ar eich bil nesaf.

**Rwy'n cael gwasanaethau dŵr gwastraff yn unig gan Ddŵr Cymru, a gaf i daliad o £10?**

Na chewch. Mae'r taliad hwn yn mynd i gwsmeriaid sy'n cael gwasanaethau dŵr yfed yn unig am ei bod yn ymwneud â sut rydyn ni'n rheoli gollyngiadau ar ein rhwydwaith dŵr yfed.

**Oni allwch chi roi fy nhaliad o £10 i sefydliad elusennol?**

Na allwn. Nid yw ein system filio a fydd yn credydu eich cyfrif yn caniatáu i ni wneud hyn.

**Sut ydych chi'n bwriadu gwella eich perfformiad o ran gollyngiadau?**

Mae'r taliad hwn i gydnabod bod gollyngiadau wedi bod yn rhedeg ar lefel uwch o lawer nag a gydnabuwyd o'r blaen. Mae'r cwmni wedi dyrannu £54m ychwanegol i daclo gollyngiadau dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn tynnu'r lefel i lawr cyn gynted â phosibl. Bydd Dŵr Cymru'n gwario cyfanswm o £[284]m yn hyn o beth rhwng 2020 a diwedd yr AMP yma yn 2025.